CYP(3) PCC 12a

Children and Young People Committee

## Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

## Ymchwiliad i leoli Plant mewn Gofal yng Nghymru:

**Cyflwynwyd: Medi 2009 gan y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol - Gwenda Thomas**

---

**Pwrpas**

1. Mae'r papur hwn yn sôn am y camau a gymerwyd gan Lywodraeth y Cynulliad drwy gyfrwng polisïau a chanllawiau i sicrhau lleoliadau effeithiol i blant mewn gofal. Yn benodol, mae'n ystyried sut y caiff polisïau eu gwireddu a sut y sefydlir systemau a dulliau ar lefel genedlaethol i gynorthwyo awdurdodau lleol a'u partneriaid wrth iddynt gomisiynu a threfnu eu gweithlu er mwyn i hynny fod yn gefn i leoli plant a phobl ifanc o dan eu gofal.

**Ein Gweledigaeth**

2. Rôl rhianta corfforaethol Llywodraeth y Cynulliad dros blant mewn gofal yw un o gyfrifoldebau mwyaf llywodraeth ar gyfer grŵp bychan o blant agored iawn i niwed sy'n dibynnu ar y wladwriaeth am ran o'u magwraeth. Gall eu profiad o ofal ffurfio'u bywydau ac mae'n hollbwysig inni sicrhau'r cyfleoedd gorau posibl mewn bywyd i'r plant hyn na allant, am resymau nad oes ganddynt reolaeth drostynt, dyfu gyda'u rhieni hwy eu hunain. Rydym i gyd yn gytûn mai'r un nod yn union a ddylai fod gennym ar gyfer plant mewn gofal â'r nod sydd gennym ar gyfer ein plant ni'n hunain; rydym am i'w plentyndod fod yn ddiogel, yn iach, ac yn rhywbeth i'w fwynhau gan ddarparu sylfaen gadarn ar gyfer gweddill eu bywyd.

3. Felly, mae'n hollbwysig bod polisïau, arferion a systemau cymorth ar bob lefel yn hynod effeithiol er mwyn sicrhau bod y plant hyn yn mwynhau'r un manteision mewn bywyd â'u cyfoedion o ran cyfleoedd addysg, iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r mecanweithiau lleoli ac adolygu ar gyfer plant mewn gofal yn rhan o fframwaith deddfwriaethol sylweddol sy'n cael ei adolygu'n barhaus er mwyn ymateb i'r heriau a wynebwn wrth i 'n cymdeithas newid. Felly, mae Llywodraeth y Cynulliad yn croesawu'n gynnes iawn ymchwiliad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i ddarparu rhagor o graffu annibynnol a'r cyfle i argymell rhagor o welliannau

**Y Fframwaith Cyfreithiol**

4. Deddf Plant 1989 (Deddf 89) a Deddf Safonau Gofal 2000 yw'r prif fframwaith ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Yn Atodiad 1 a 2, ceir crynodeb o'r gofynion cyfreithiol a'r arweiniad sy'n sefydlu egwyddorion canolog fframwaith ar gyfer lleoliadau ac adolygu lleoliadau a'r trefniadau ar gyfer rheoleiddio a chynorthwyo gofalwyr maeth ac asiantaethau maethu. Nid yw'n cynnwys popeth, ond mae'n

cynnig golwg gyffredinol ar y systemau cyfreithiol a'r systemau polisi y bydd awdurdodau lleol Cymru, ac i raddau llai, eu partneriaid, yn gweithio oddi mewn iddynt.

5. Caiff plant eu rhoi mewn gofal mewn sawl ffordd. Y ddau brif lwybr cyfreithiol yw o dan orchymyn gofal a wneir gan lys achosion teulu neu o dan drefniant gwirfoddol, lle bydd cyfrifoldeb rhiant dros y plentyn yn cael ei rannu gan y wladwriaeth a rhieni'r plentyn ei hun. Prif ddyletswyddau awdurdodau lleol yw diogelu a hybu lles plentyn sy'n derbyn gofal; cynllunio ar gyfer ei anghenion ar y pryd ac yn y tymor hir a rhoi'r un sylw i ddymuniadau a theimladau'r plentyn, i ddymuniadau a theimladau'r rhieni ac i ddymuniadau a theimladau pobl allweddol eraill ym mywyd plentyn hwnnw. Lle bynnag y bo modd, dylid ceisio lleoli plentyn gydag aelod o'r teulu estynedig neu ffrindiau (gelwir y rhain yn lleoliadau gofal gyda pherthynas) onid yw hynny'n groes i les y plentyn

**Lleoli plant mewn Gofal**

6. Mae'r dystiolaeth yn dangos y gall symud plant o'r naill leoliad gofal i'r llall yn aml amharu'n ddifrifol ar allu plant a phobl ifanc i lwyddo mewn addysg, o ran eu datblygiad cymdeithasol ac mewn meysydd eraill yn eu bywyd. Er gwaetha'r cynnydd da yn y blynyddoedd diwethaf (er enghraifft, mae canran y plant a leolir mewn tri lleoliad neu fwy mewn un flwyddyn wedi gostwng o 14% i 10% er 2006[1]) , bydd llawer o blant yn dal i gael eu symud aml o leoliad i leoliad.

7. Gan adeiladu ar sylfaen gadarn Deddf 1989 a'r prif reoliadau ynglŷn â lleoli, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cymryd nifer o gamau i wella'r dewis o leoliadau sydd ar gael ac i sicrhau mwy o sefydlogrwydd i blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Mae Rhoi Plant yn Gyntaf [2] ein rhaglen flaenllaw (a gafodd werth £250 miliwn o adnoddau ychwanegol yn ystod ei hoes) wedi sbarduno gwella cyson o ran ansawdd bywyd a'r canlyniadau.

8. Elfen ganolog o'n diwygiadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yw ein fframwaith strategol *Dewis a Sefydlogrwydd* [3]. Roedd hwn yn cynnwys dyheadau Llywodraeth y Cynulliad i wella'r dewis o leoliadau sydd ar gael ac i sicrhau mwy o sefydlogrwydd gan fynnu bod awdurdodau lleol yn ceisio datblygu amrywiaeth o leoliadau o safon yn agos at gartrefi plant sy'n derbyn gofal a'r rheini'n diwallu holl ystod eu hanghenion.

9. Seiliwyd y rhaglen, gyda chymorth grant penodol, ar waith ymchwil sylweddol [4] a phennwyd nifer o gamau gwella fel y gallai awdurdodau lleol ddatblygu strategaethau lleoli lleol. Rhoddodd y fframwaith her i awdurdodau lleol foderneiddio a gwella ansawdd y gofal mewn marchnad a oedd erbyn hyn yn farchnad gymysg. Disgwylid iddynt wneud hynny drwy sicrhau mwy o gydweithio rhwng y sectorau er mwyn rheoli'r galw, yr adnoddau a'r disgwyliadau'n well, a thrwy ddatblygu ystod

[1] Uned Ddata Llywodraeth leol, SDR/1272009; Statistic, on Adoptions, Outcomes and Placements for Children Looked After by Local Authorities: blwyddyn yn diweddu Mawrth 2009
[2] Rhoi Plant yn Gyntaf : £250 dros 8 mlynedd. Gweler Cylchlythyron
[3] Fframwaith Strategol - Dewis a Sefydlogrwydd - Datblygu Ystod o Leoliadau o Safon i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yng Nghymru (Cynulliad Cenedlaethol, 2004)
[4]

amrywiol o wasanaethau o safon a fyddai'n ymateb i batrymau'r angen ac amgylchiadau'r gofal wrth iddynt newid.

10. Wrth wraidd y rhaglen, roedd ein hymrwymiad i lunio dyfodol gwasanaethau gofal maeth a phreswyl drwy gyfrwng strategaethau gwell ar gyfer rheoli, comisiynu a recriwtio a chadw . Disgwylid i awdurdodau lleol ddatblygu eu darpariaeth gofal maeth leol a gweithio gyda'u partneriaid yn y sector annibynnol a'r trydydd sector wrth ddarparu gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a chanddynt fwy o anghenion.

**Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant**

11. Hwyluswyd y fframwaith strategol ar gyfer dewis o ran lleoliadau a sefydlogrwydd gan Lywodraeth y Cynulliad drwy gefnogi'r Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant yn 2006. Fe'i datblygwyd yn rhannol er mwyn ymateb i'r pwysau cynyddol ar y gwasanaeth lle'r oedd llawer o awdurdodau lleol yn dweud bod eu gorwario ar wasanaethau plant yn deillio'n uniongyrchol o leoliadau drud yn y sector annibynnol. Er enghraifft, cynyddodd gwariant ar blant sy'n derbyn gofal 63.4% i £106.6m dros dair blynedd hyd at 2004. Roedd hanner y cynnydd hwn wedi'i wario ar lai na 7% o'r lleoliadau mewn gofal preswyl a drefnwyd drwy brynu'r gofal yn ôl y galw. Roedd costau lleoliadau'n cynyddu'n afreolus i'r gwasanaeth a hynny heb fawr o dystiolaeth bod y canlyniadau'n well i blant a oedd yn derbyn gofal ac roedd awdurdodau lleol yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i gefnogi datblygu system genedlaethol. Penderfynwyd datblygu adnodd cenedlaethol drwy gyfrwng yr Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant i hybu datblygu agweddau effeithlon a chynaliadwy at ddefnyddio adnoddau cyhoeddus er mwyn darparu lleoliadau o safon ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

12. Pwrpas yr Adnodd yn y lle cyntaf oedd mapio'r ddarpariaeth ledled Cymru drwy weithio gyda'r Arolygiaeth Safonau Gofal fel yr oedd ar y pryd a'r darparwyr, a sicrhau cytundeb darparwyr i ddarparu gwybodaeth ynglŷn â'r lleoedd a oedd ar gael er mwyn i awdurdodau lleol allu dod o hyd i leoliadau addas yn nes at gartref y plentyn, sy'n beth gwerthfawr ynddo'i hun. Y nod ehangach ar y pryd a'r nod o hyd yw cynorthwyo awdurdodau lleol i ddatblygu sgiliau comisiynu, comisiynu cydweithredol a rheoli'r farchnad wrth leoli Plant sy'n Derbyn Gofal. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru wedi cynnig yr arweiniad o ran hybu cydweithredu effeithiol mewn tri rhanbarth yng Nghymru. Mae adroddiad blynyddol yr Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant (2008-9) [5] yn sôn am y cynnydd ymarferol (o ran TGCh a busnes) dros y flwyddyn ddiwethaf a'r meysydd lle y gellid gwella. Drwyddi draw, mae'r Adnodd yn gyfrwng allweddol i gynorthwyo awdurdodau lleol i wireddu eu strategaethau lleol; a thrwy ymdrech ddygn ar sawl lefel, mae wedi llwyddo i sicrhau'r newid angenrheidiol ym mhatrwm y ddarpariaeth lleoliadau sydd ar gael.

13. Mae'r system yn datblygu o hyd ac mae'n bwysig bod anghenion busnes a chyfrifoldebau comisiynwyr ar y naill law a rôl a buddiannau darparwyr o ran cael mynediad at ddata a diweddaru'r Adnodd yn rheolaidd yn cael yr un sylw drwy grwpiau defnyddwyr yr Adnodd, er mwyn inni sicrhau mwy o gyfle i sicrhau gwell

[5] Adroddiad Blynyddol ar Gronfa Ddata'r Adnodd Cymorth Comisiynu Gofal (Cyhoeddwyd Awst 2009, Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru)

cyfatebiaeth rhwng y plant â'r lleoedd gweigion sydd ar gael. Mae'r Adnodd hefyd yn cynnig ffynhonnell gyfoethog o wybodaeth er mwyn sbarduno buddsoddi mewn datblygu gwasanaethau newydd. Byddwn yn cefnogi CLILC ac Uned Ddata Llywodraeth Leol sy'n cynnal y system, gan weithio gyda phob sector er mwyn ei newid fel y bydd angen gwneud erbyn yr hydref er mwyn sicrhau bod yr un wybodaeth ar gael i bawb. Yn ogystal â hynny, bwriadwn gomisiynu gwerthusiad o'r Adnodd a sut y mae wedi cyfrannu at strategaethau lleoli lleol a byddwn yn sicrhau bod y gwerthusiad hwnnw'n ystyried tystiolaeth y Pwyllgor hwn.

14. Mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng pwrpas yr Adnodd a rôl awdurdodau lleoli a gyflawnir gan weithwyr cymdeithasol. Mae'r adnodd yn rhoi cymorth i awdurdodau lleol wrth iddynt lunio'u strategaethau lleol. Nid yw'n golygu nad oes angen i weithwyr cymdeithasol gysylltu â darpar ddarparwyr a gwneud ymholiadau pellach er mwyn sicrhau bod lleoliad yn addas ac ni fwriadwyd erioed iddo wneud hynny. Fodd bynnag, mae'r Adnodd yn gyfrwng effeithiol i gynorthwyo yn y broses o ddod o hyd i'r ddarpariaeth sydd ar gael a'i chyfatebu'n well ag anghenion y plentyn. Mae hefyd yn cynnig ffynhonnell gyfoethog o wybodaeth rheoli a gwybodaeth am y farchnad ar lefel Cymru gyfan, ar lefel ranbarthol ac ar lefel leol er mwyn gallu gweld bylchau a thueddiadau yn y galw am wasanaethau a'r ddarpariaeth sydd ar gael. Mae hyn yn sail ar gyfer gweld a oes angen cydweithredu a pha mor ymarferol fyddai hynny er mwyn datblygu a sicrhau darpariaeth ddigonol mewn rhanbarth. Mae hyn yn hanfodol er mwyn gwireddu'n dyheadau sef sicrhau lleoliadau o safon i bob plentyn yn agos at ei gartref, onid oes gofynion diogelu neu resymau da eraill dros ei leoli ymhellach i ffwrdd. Yn Atodiad 3, ceir crynodeb o'r hyn y gall yr Adnodd ei gynnig.

15. Caiff yr Adnodd ei gryfhau eto dros y flwyddyn nesaf. Bydd y system ym amhrisiadwy i awdurdodau lleol wrth iddynt roi'r dyletswyddau cyfreithiol newydd ar waith sy'n codi yn sgil Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 o ran sicrhau darpariaeth ddigonol ar gyfer lleoli plant sy'n derbyn gofal yn eu hardal a hysbysiadau statudol ar gyfer y rheini a leolir y tu allan i'w hardal. Gwyddom yn sgil yr Adnodd fod bylchau sylweddol o ran darpariaeth arbenigol yng Nghymru. Rydym yn annog awdurdodau lleol i gydweithio â darparwyr yn y sector annibynnol er mwyn buddsoddi mewn darpariaeth arbenigol ranbarthol i sicrhau bod y ddarpariaeth ar gael pan fydd ei hangen er mwyn cadw plant Cymru'n agos at eu cymunedau. Rydym wedi bod yn gweithio gyda'r sector i hyrwyddo gwell cysylltiadau ac i'w perswadio ynglŷn â manteision Fforwm Gofal Preswyl Plant Cymru Gyfan. Rydym yn falch y caiff hwn ei sefydlu o fewn Fforwm Gofal Cymru yn yr hydref.

## Gofalwyr Maeth

16. Rydym wedi mynd i'r afael mewn sawl ffordd â sicrhau dewis o ran lleoliadau a rhoi chymorth i ofalwyr maeth. Mae awdurdodau lleol wedi cynyddu eu darpariaeth o ofalwyr maeth mewnol sy'n cael eu datblygu a'u cefnogi'n lleol. Mae awdurdodau hefyd wedi datblygu modelau arloesol megis *Gofal Maeth a Mwy* i blant sy'n ymddwyn yn heriol iawn a rhai a chanddynt anghenion cymhleth, a thrwy gynlluniau megis *Gofal Cymorth* [6], maent yn cynyddu eu cronfa o ofalwyr maeth ar gyfer gwyliau seibiant tymor byr i blant anabl a phlant mewn teuluoedd y mae perygl iddynt chwalu. Mae'r negeseuon cyntaf sy'n deillio o waith ymchwil a gomisiynwyd gennym gan LE

[6] Prosiect Gofal Cymorth - Cronfa Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Rhwydwaith Maethu Cymru i ddatblygu lleoliadau maeth tymor byr

Wales [7] ynglŷn â gofalwyr maeth yn dangos bod y gweithlu gofal maeth sydd wedi datblygu dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf yn un gwahanol iawn; mae'n pontio sbectrwm eang - o ofal teulu ar y naill ben i wasanaeth sydd wedi'i broffesiynoleiddio fwy ar y pen arall. Mae'n dweud bod gan 75% o awdurdodau lleol strwythurau ffioedd sy'n gysylltiedig â sgiliau gofal maeth a'r gallu i ofalu, a bod rhai yn defnyddio cynlluniau gwobrwyo am deyrngarwch neu brofiad. Mae dros hanner yr awdurdodau'n talu ffioedd cadw i ofalwyr maeth medrus iawn sy'n darparu lleoliadau arbenigol, ac maent i gyd yn darparu lefel amrywiol o hyfforddiant a mathau eraill o gymorth.

17. Mae hyn yn awgrymu bod cynlluniau cysylltiedig Llywodraeth y Cynulliad i hybu'r cymorth a roddir gan awdurdodau lleol i ofalwyr maeth a bod datblygu fframwaith rheoleiddio er mwyn sicrhau safonau uchel o ran cymeradwyo a chyfatebu lleoliadau'n dechrau dwyn ffrwyth o ran codi safon y gofal i blant sy'n derbyn gofal. Dyma ambell enghraifft;

- cydnabod bod gofalwyr maeth yn weithlu sy'n cael ei werthfawrogi yn ein strategaeth gwasanaethau cymdeithasol a'n Rhaglen i Ddatblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol [8] a'n grant i awdurdodau lleol er mwyn gwella cymwysterau a sgiliau'r gweithlu gofal cymdeithasol gan gynnwys gofalwyr maeth.
- Rheoliadau [9], canllawiau a Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau gofal maeth sy'n pwysleisio pwysigrwydd rhannu gwybodaeth wrth gyfatebu lleoliadau a darparu gwybodaeth ar gyfer gofalwyr maeth ynglŷn â'r plentyn a hanes y teulu er mwyn sicrhau bod y gofalwyr maeth yn gallu gwarchod y plentyn, gwarchod eu teulu hwy eu hunain a phlant eraill y gall fod ganddynt gyfrifoldeb drostynt.
- Cymorth Ariannol i Rwydwaith Gofal Maeth Cymru a Sefydliad Prydain ar gyfer Mabwysiadu a Maethu. Mae'r ddau hyn yn chwarae rôl bwysig o ran rhoi cymorth i ofalwyr maeth ar draws sbectrwm eang megis gwasanaethau gwybodaeth a chyngor, hyfforddiant i weithwyr proffesiynol a gofalwyr maeth, gan gynnwys llinell gyngor genedlaethol *Llinell Maethu Cymru,* a recriwtio megis ymgyrch eleni *'gyrfa sy'n newid bywydau'.*

## Cryfhau Lleoliadau

18. *Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell* [10] yw ein polisi unigryw i gryfhau lleoliadau a lles plant sy'n derbyn gofal a phlant eraill sy'n agored i niwed ac i sicrhau bod y penderfyniadau i leoli plant y tu allan i ardal yr awdurdod lleol yn fwy atebol. Mae hyn yn dechrau dwyn ffrwyth (fel y dengys nifer o adroddiadau'r AGGCC [11]). Mae'r rhain yn cynnwys lleoli plant yn nes at eu cartref a rhoi mwy o sylw i iechyd ac

[7] Atodlen Taliadau Gofal Maeth a Fframwaith Ffioedd (2009) (LE Cymru) i'w gyhoeddi yn hydref 2009
8 Rhaglen Datblygu'r Gweithlu (SCDWP) Cylchlythyr Llywodraeth y Cynulliad 02/2008 - Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol Personol 2008-2009

[9] Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003 a SGC (Llywodraeth y Cynulliad, 2003)
[10] Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell : Arweiniad a Rheoliadau ynglŷn â mesurau i gryfhau'r trefniadau ar gyfer lleoli a lles Plant sy'n Derbyn Gofal a Chomisiynydd cyfrifol ar gyfer gofal Iechyd Eilaidd i blant agored i niwed sy'n cael eu lleoli oddi cartref (Llywodraeth y Cynulliad, Mehefin 2007)
[11] Adroddiad Prif Arolygydd Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru 2008, archwiliad AGGCC o Wasanaethau'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yng Nghymru (AGGCC, Awst 2009)

addysg plant. Dengys y dystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgor fod 90% wedi cael asesiad iechyd gan nyrs plant sy'n derbyn gofal yn ardal un awdurdod lleol [12]. Ar lefel Cymru gyfan, mae cynnydd amlwg wedi bod yn nifer y plant sy'n derbyn gofal sy'n cael asesiad iechyd (o 57% yn 2006 i 85% yn 2008). Yn yr un modd, mae nifer y plant sydd wedi cofrestru gyda meddyg teulu wedi codi i 96% a'r rheini a chanddynt Gynllun Addysg Personol wedi cynyddu 10% (52%) ers y llynedd.

19. Un her fawr oedd sicrhau bod gennym staff o'r ansawdd gorau'n gweithio yn ôl y safonau uchaf yn y sector gofal preswyl yng Nghymru. Rydym wedi mynd i'r afael â hyn drwy gyflwyno fframwaith cofrestru a chymwysterau gorfodol i reolwyr a staff gofal sy'n darparu gofal arbenigol ar gyfer rhai o'n plant a'n pobl ifanc mwyaf agored i niwed a mwyaf heriol. Cymeradwyaf y sector am ei ymdrechion i ymateb i'r her fel yr adroddwyd mewn astudiaeth ddiweddar gan Gyngor Gofal Cymru[13] . Mae gennym yn awr dros 1,500 yn gweithio mewn sector lle mae gan y rheolwyr i gyd a hanner y gweithwyr gofal y cymwysterau angenrheidiol a lle mae gweddill y staff gofal yn cael cymorth i ennill eu cymhwyster NVQ3 erbyn dyddiad penodol.

**Rhannu Gwybodaeth**

20. Mae rhannu gwybodaeth am bobl yn elfen ganolog o ddarparu gofal a gwasanaeth effeithiol ar draws y sector gwasanaeth drwyddo draw. Cytundeb Cymru ar Rannu Gwybodaeth Bersonol yw fframwaith Llywodraeth y Cynulliad i alluogi sefydliadau i rannu gwybodaeth rhyngddynt mewn ffordd gyfreithlon a deallus. [14] Er bod cyfarwyddyd clir mewn rheoliadau a safonau er mwyn sicrhau bod gwybodaeth berthnasol yn cael ei rhannu'n ddiogel â gofalwyr maeth, nid yw pob awdurdod yn rhoi'r drefn ar waith yn yr un modd. Dywed gofalwyr maeth wrthym hefyd eu bod yn teimlo nad ydynt yn cael yr wybodaeth lawn bob tro.

21. Gall arferion gwael arwain at dor-leoliad gan beri risg i'r plentyn neu i blant eraill yn nheulu'r gofalwyr maeth. Wrth i weithwyr proffesiynol ddehongli'r hyn a olygir wrth wybodaeth berthnasol mewn gwahanol ffyrdd, gallai hynny fod yn rhwystr rhag rhannu a byddwn yn ymgynghori ynglŷn â chynigion i gryfhau'r maes hwn ac i bennu gofynion ar gyfer cynlluniau gofal a phecyn ehangach o ddiwygiadau i gynorthwyo gofalwyr maeth.

**Lleoli Plant Anabl, Plant o gymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a Phlant ar eu Pen eu Hunain yn Ceisio Lloches**

22. Nid yw'r Ddeddf Plant na'n polisïau nac yn gwahaniaethu nac yn mynnu trefniadau gwahanol ar gyfer plant anabl, plant ar eu pen eu hunain a phlant o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Yr unig beth a wneir yw nodi bod plant o'r fath yn arbennig o agored i niwed ac y gall fod ganddynt anghenion ychwanegol sy'n gofyn am wasanaethau mwy arbenigol.

---

[12] Papur a gyflwynwyd gan y Dr Heather PAYNE (cyp(3)-09-09(p1_:9 Mehefin 2009)

[13] Gyda Gofal, Y Darlun Cyflawn Cyntaf o Weithlu Gofal Preswyl Plant yng Nghymru (Cyngor Gofal Cymru, Gwanwyn 2009)

[14] Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (Llywodraeth y Cynulliad, 2005)

23. Bydd llawer o'r boblogaeth anabl sy'n derbyn gofal yn cael y gofal hwnnw mewn lleoliadau seibiant byr er mwyn rhoi hoe i'w teulu. Bydd rhai eraill a chanddynt anghenion mwy cymhleth yn cael llety mewn lleoliadau preswyl neu oddi cartref (am fwy na thri mis) mewn ysgolion preswyl neu fel cleifion mewnol mewn unedau iechyd. Bydd yr awdurdodau lleol sy'n eu lleoli'n dal yn gyfrifol am y plant hyn er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu diogelu a'u bod yn hybu eu lles. Byddwn yn cyflwyno cynigion y flwyddyn nesaf i fynnu bod awdurdodau'n ymweld yn rheolaidd er mwyn hybu a chynorthwyo (yn ariannol neu fel arall) y rhieni i ymweld â'r plant hyn.

24. Pan fydd Plant ar eu Pen eu Hunain sy'n Ceisio Lloches yn cael eu lleoli, fel rheoli, fe wneir hynny mewn argyfwng. Mewn achosion o'r fath, bydd gofyn i awdurdodau ddilyn yr un fframwaith ac ysgwyddo'r un dyletswyddau cyfreithiol [15] ag y bydd gofyn iddynt ei wneud ar gyfer plant eraill sy'n derbyn gofal. Yng Nghymru, pan gyfrifwyd ddiwethaf, roedd 140 o blant ar eu pen eu hunain yn derbyn gofal ac 86 o gyn geiswyr lloches ar eu pen eu hunain yn cael cymorth awdurdodau lleol dan y trefniadau gadael gofal. Mae nifer ac ystod oedran y rhain, plant hŷn 16-17 oed yn bennaf, wedi aros yn sefydlog ers y tair blynedd diwethaf, er inni wedi gweld yr ardal gofal ddaearyddol yn newid. Mae pedwar o bob pump o'r cyfanswm yng Nghaerdydd, Mynwy a Wrecsam. Rydym yn dal i weithio'n glos gyda'r Swyddfa Gartref er mwyn sicrhau bod plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches yn cael eu trin fel plant yn y lle cyntaf gan geisio dylanwadu ar eu hagenda er mwyn sicrhau bod plant ar eu pen eu hunain yn gallu manteisio i'r eithaf ar eu cyfleoedd i ddatblygu a chael addysg pan roddir llety iddynt yng Nghymru. Byddwn yn defnyddio adnoddau nifer o rwydweithiau cymorth arbenigol cenedlaethol [16] a lleol er mwyn darparu ystod o gymorth a chyngor gan gynnwys cyngor ynglŷn â materion sy'n ymwneud â mewnfudo i blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches a phlant o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.

**Y Gweithlu**

25. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i ymgyrraedd at ragoriaeth broffesiynol ym maes gofal cymdeithasol ac i wneud hynny drwy sicrhau bod gennym sector sy'n ffynnu, sy'n buddsoddi yn ei weithlu, sy'n hyblyg, sy'n fedrus ac sy'n gweithio mewn partneriaeth i fwrw ymlaen â'r agenda gwella yng Nghymru. Mae gan weithwyr cymdeithasol hefyd rôl bwysig o ran llunio gwasanaethau'r rheng flaen.

26. Drwy Gyngor Gofal Cymru (y 'Cyngor') mae gennym fframwaith sefydledig o safonau ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol ac mae'r Cod Ymarfer yn disgrifio'r safonau ymarfer ar gyfer pawb sy'n gweithio yn y sector, ynghyd â gofyniad bod gweithwyr cymdeithasol (cymwysedig a myfyrwyr) wedi'u cofrestru. Mae gweithlu gofal cymdeithasol medrus a phrofiadol yn hanfodol er mwyn darparu lleoliadau, ac er mwyn adolygu a rheoli gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

27. Mae pawb yn cydnabod bod angen sicrhau'r cydbwysedd iawn rhwng proses rheoli achosion o safon a gwneud gwaith uniongyrchol gyda phlant a theuluoedd sy'n sail i'r broses honno. Er bod y drefn ar gyfer recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol a myfyrwyr yn gwella, mae nifer y swyddi gweigion ym maes

---

[15] Gweler Cylchlythyr y Cynulliad Cenedlaethol 23/2005

[16] Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru, Cyngor Ffoaduriaid Cymru

gwasanaethau plant yn dal yn broblem [17] . Rydym wedi bod yn gwrando ar yr hyn y mae gweithwyr cymdeithasol a'r sefydliad sy'n eu cynrychioli, Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain (BASW) yn ei ddweud wrthym ynglŷn â'r hyn a fydd yn gwella'r ymarfer ac yn arwain at ragoriaeth broffesiynol ar gyfer gwasanaeth gofal cymdeithasol sydd wedi'i foderneiddio. Cyn bo hir, bydd y 'Cyngor' yn ymgynghori ynglŷn â llwybr gyrfa i weithwyr cymdeithasol er mwyn rhoi cyfle i weithwyr cymdeithasol ddringo ac aros yn y maes drwy gyflwyno rôl newydd sef ymarferydd gwaith cymdeithasol ymgynghorol. Bydd y rôl hon ar gael i bobl a chanddynt lefelau penodedig o brofiad ac sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant gwaith cymdeithasol ôl-gymhwyso achrededig. Rhoddir y rôl ar brawf fel rhan o'n polisi newydd ar gyfer Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd mewn tair ardal yng Nghymru o'r flwyddyn nesaf ymlaen. Er mwyn sicrhau bod ffocws cryf ar foderneiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol a bod cyfeiriad strategol i'r broses honno, cyhoeddais gynlluniau'n gynharach yn yr haf i sefydlu Tasgrwp Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol Bydd gan BASW rôl bwysig o ran sicrhau bod safbwyntiau a phrofiadau gweithwyr cymdeithasol yn elfen ganolog o'i gwaith.

**Llais y Plentyn wrth benderfynu ynglŷn â'i leoli**

28. Mae'r brif ddeddfwriaeth, y rheoliadau a rheolau'r llys yng nghyswllt achosion teulu yn dweud pa mor bwysig yw cael gwybod beth yw dymuniadau a theimladau plant a rhoi sylw iddynt wrth wneud unrhyw benderfyniad ynglŷn â'u lleoli mewn llety ar wahân i'w rhieni hwy eu hunain. Mae awdurdodau lleol, gwarcheidwaid a gyflogir gan CAFCASS CYMRU a'r llys wedi'u rhwymo gan y dyletswyddau cyfreithiol hyn ac mae arweiniad a gweithdrefnau cynhwysfawr ar gael i sicrhau bod plentyn a phobl eraill sy'n gofalu am y plentyn yn cael llais.

29. Mae gan y Swyddog Adolygu Annibynnol ddyletswyddau penodol i gyfarfod â phlentyn cyn adolygu ei achos a chyn cynnal unrhyw gynhadledd achos er mwyn trafod eu teimladau a monitro'r cynllun gofal. Dylai'r Swyddog hwn gefnogi'r plentyn yn yr adolygiad ac yn y cyfarfod ar ôl yr adolygiad er mwyn sicrhau bod y plentyn hwnnw wedi deall y broses, unrhyw benderfyniad a wnaethpwyd a goblygiadau'r penderfyniadau hynny. Yn yr un modd, dylid trafod unrhyw newid i'r cynllun gofal ac, os oes angen, ei ailasesu yng ngoleuni adolygiad y plentyn.

30. Budd a lles gorau'r plentyn a ddylai benderfynu beth fydd blaenoriaethau gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill. Wrth wneud hyn, mae gofyn iddynt ystyried amrywiaeth o ffactorau, ond dylid rhoi sylw dyledus i safbwyntiau'r plentyn a dibynnu ar ei oedran a'i ddealltwriaeth. Mae'n bwysig bod pob plentyn yn cael esboniad clir a'i fod yn deall ac yn cael tawelu ei feddwl ynglŷn â phenderfyniadau mawr sy'n effeithio ar ei fywyd. Mae pwysigrwydd sicrhau bod plentyn yn cael llais yn y penderfyniadau ynglŷn â'i ofal wedi'i ymgorffori yn ethos a hyfforddiant proffesiynol gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill; Swyddogion Adolygu Annibynnol, gwarcheidwaid ac eiriolwyr.

[17] Cafwyd cynllun peilot gan y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a Chyngor Gofal Cymru ynghyd ag awdurdodau lleol i gasglu data ynglŷn â'r galw gam gyflogwyr am weithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso. Nid oedd y canlyniadau'n bendant ond roeddent yn awgrymu bod 11.9% o swyddi gweithwyr cymdeithasol gofal plant yn wag.

## Adolygu Lleoliadau Plant

31. Yn ôl statud[18], rhaid adolygu pob lleoliad ar gyfer plant sy'n derbyn gofal o fewn amserlen a bennwyd. Mae gofyn i awdurdodau benodi Swyddog Adolygu Annibynnol i fonitro rhoi cynllun y plentyn ar waith ac i gadeirio'r cyfarfod adolygu. Mae gan y Swyddog Adolygu Annibynnol bwerau hefyd i gyfeirio achos at CAFCASS CYMRU er mwyn iddynt gymryd camau cyfreithiol os byddant yn meddwl bod yr awdurdod lleol wedi torri Hawliau Dynol plentyn.

32. Fel rhan o archwiliad diweddar AGGCC[19] ar wasanaethau'r Swyddogion Adolygu Annibynnol, ceisiwyd barn[20] oddeutu 100 o blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ynglŷn â'u profiad o wasanaeth y Swyddogion Adolygu Annibynnol a'r ffordd yr oeddent yn gweld y gwasanaeth hwnnw. Mae'r adroddiad yn creu darlun amrywiol ledled Cymru;

- Teimlai 62% eu bod wedi cael dweud eu dweud yn eu cyfarfodydd adolygu a bod sylw wedi'i roi i'w barn.
- Dywedodd 50% fod y Swyddog Adolygu Annibynnol wedi siarad â hwy cyn y cyfarfod a theimlai'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc fod y Swyddog yn rhywun hawdd mynd ato.
- Dywedodd 69% eu bod yn deall ac yn teimlo'n gyfforddus yn y cyfarfod adolygu
- Dywedodd 44% eu bod wedi cael dewis o ran y lleoliad
- Dywedodd 61% eu bod wedi cael dewis pa ysgol i'w mynychu ac mai hyn oedd bwysicaf iddynt
- Dywedodd 50% o'r grŵp o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig bod sylw wedi'i roi i'w hunaniaeth ddiwylliannol.

33. Mae'n amlwg bod angen cryn waith i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cymryd rhan lawn yn y broses; mewn penderfyniadau ynglŷn â'u bywyd, ac er mwyn i weithwyr proffesiynol gynorthwyo'n well y plant hynny sy'n derbyn gofal er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd a'r cyfleoedd yn cynorthwyo plant a phobl ifanc i fynegi eu dymuniadau a'u teimladau. Mae'r adroddiad yn cynnig enghreifftiau da o sut y gellid cyflawni hyn yn well a byddaf yn sicrhau bod y rhain yn cael sylw fel rhan o'r newidiadau ehangach y bwriadwn eu gwneud er mwyn cryfhau'r trefniadau ar gyfer Swyddogion Arolygu Annibynnol[21]. Mae'r adroddiad a dangosyddion eraill (er enghraifft mae 90% o adolygiadau statudol yn cael eu cwblhau mewn pryd), yn awgrymu ein bod yn symud i'r cyfeiriad iawn, ond mae llawer o waith i'w wneud o hyd yng nghyswllt nifer o brosesau craidd er mwyn codi safonau. Ystyrir rhagor o welliannau yn y maes hwn mewn gweithdai cenedlaethol yn yr hydref.

## Rhagor o Ddatblygiadau a Gwelliannau

[18] Rheoliadau Adolygu Achosion Plant (Cymru) 2007

[19] CSSIW Audit of the Effectiveness of IRO service in Wales , AGGCC 2009.

[20] Tros Gynnal : Adroddiad ar yr ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc ynglŷn â rôl a swyddogaeth Swyddogion Adolygu Annibynnol (2009)

[21] Mae Adran o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 yn darparu ystod o bwerau newydd i gryfhau'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer Swyddogion Adolygu Annibynnol.

34. Fel y crybwyllwyd yn gynharach yn y papur hwn, a ninnau'n rhieni corfforaethol cyfrifol, ein dyletswydd yw archwilio a gwella'n barhaus y gyfraith, y systemau a'r arferion sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal. Ar lefel y Llywodraeth, mae datblygiadau sylweddol wedi bod o ran polisïau a dangosyddion da sy'n awgrymu ein bod yn symud i'r cyfeiriad iawn. Serch hynny, erys sawl her ar sawl lefel a dim ond pan roddir polisïau ar waith yn effeithiol mewn ffordd gydlynol a chyson y byddant yn llwyddiannus. Rydym wedi gweld yr anawsterau a wynebir gan awdurdodau lleol a'r galwadau dro ar ôl tro gan Brif Arolygydd Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGCC) yn ei adroddiadau blynyddol am gyflymu'r gwelliannau o ran sicrhau ansawdd ac arferion cyson ledled Cymru.

35. Mae gan Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru rôl allweddol hefyd o ran arwain a hwyluso gwaith awdurdodau lleol i wella ymarfer ar sawl lefel. Mae arwain yr agenda gwella er mwyn diogelu a sicrhau lles plant sy'n derbyn gofal yn rôl ganolog hefyd i aelodau etholedig a Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol o ran cyflawni eu cyfrifoldebau corfforaethol. Er mwyn atgyfnerthu pwysigrwydd y rolau hyn, cyhoeddwyd dwy ddogfen ganllawiau allweddol gennym dros yr haf ; *Pe Bai'n Blentyn i Mi* a *Swyddogaeth ac Atebolrwydd Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol.*

36. Mae gwella'r canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal yn flaenoriaeth fawr i'r Llywodraeth ac rydym wedi ymrwymo i wireddu'n strategaeth gwasanaethau cymdeithasol [22]. O ran plant, mae nifer o bolisïau gwahanol megis y Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd eisoes ar y gweill ac fe gaiff y rhain effaith fawr ar y trefniadau ar gyfer plant a leolir mewn gofal yn y dyfodol Mae ein hagenda'n un flaengar ac rydym wedi dechrau newid pethau drwy gyfrwng pwerau newydd yn Neddf Plant a Phobl Ifanc 2008 [23]. Er enghraifft, ar hyn o bryd, rydym yn ymgynghori ynglŷn â threfniadau newydd yng nghyswllt Adolygiadau a Phenderfyniadau Annibynnol ar gyfer Maethu a Mabwysiadu [24]. Bydd AGGCC yn adrodd yn yr hydref ynglŷn â'i archwiliad o drefniadau awdurdodau lleol a Byrddau Lleol Diogelu Plant ar gyfer diogelu plant ac adolygu achosion difrifol. Bydd angen inni feddwl o ddifrif ynglŷn â'r canfyddiadau a'r newidiadau angenrheidiol o ran polisi a all ddilyn yn sgil hynny.

37. Gan gydnabod y pwysau ar y gwasanaeth a bod angen sicrhau bod modd rhoi unrhyw newid ar waith yn iawn, byddwn yn ymgynghori â rhanddeiliaid lleol ac â rhanddeiliaid eraill ynglŷn â chyflwyno pecyn o fesurau gam wrth gam er mwyn gwella'r trefniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Elfen ganolog o'r newidiadau hyn fydd cryfhau'r gofynion craidd ar gyfer lleoli, cynllunio gofal ac adolygu gofal plant sy'n derbyn gofal a fframwaith newydd ar gyfer talu, hyfforddi a chymeradwyo gofalwyr maeth.

Gwenda Thomas
Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdetihasol

[22] Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol (Llywodraeth y Cynulliad 2008)
[23] Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008, ac EM gweler http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2008/ukpga_20080023_en_1
[24] Adolygu Penderfyniadau Annibynnol ynglŷn â Maethu a Mabwysiadu (Llywodraeth y Cynulliad, Awst 2009)

**Atodiad 1**

**Egwyddorion Canolog Lleoli, y trefniadau adolygu ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a rheoleiddio asiantaethau maethu /gofalwyr maeth a'r cymorth a roddir i ofalwyr maeth**.

**Rheoliadau Lleoli Plant (Cymru) 2007**
Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer lleoli plant gan awdurdodau lleol, sefydliadau gwirfoddol a phobl sy'n cadw cartrefi plant preifat yng Nghymru. Gall y lleoliadau hyn fod gyda rhieni maeth, mewn cartrefi yn y gymuned, yn gartrefi plant gwirfoddol neu'n gartrefi plant preifat.

Dan y rheoliadau, mae gofyn i awdurdodau lleol:

- Drefnu llety a chynhaliaeth i'r plant drwy gynllunio lleoliadau sy'n hybu'u lles. Mae hyn yn cynnwys rhoi sylw i anghenion y plentyn o ran iechyd ac addysg;
- Cydymffurfio â gweithdrefnau penodol os yw'n fwriad lleoli'r plentyn y tu allan i ardal yr awdurdod lleol ac, os oes angen, trefnu i'r awdurdod lleol sy'n derbyn y plentyn gyflawni rhai o'u swyddogaethau ar eu rhan;
- Hysbysu pobl benodol (gan gynnwys iechyd ac addysg) am y trefniadau i leoli plentyn o fewn cyfnodau penodol gan ofyn am drosglwyddo cofnodion y plentyn yn ddi-oed;
- Hybu'r cysylltiad rhwng y plentyn a phobl benodol (gan gynnwys rhieni, perthnasau a chyfeillion);
- Trefnu i'r plentyn gael asesu ei iechyd, cofrestru gyda meddyg teulu a chael gweld deintydd o fewn amserlen benodol;
- Cadw cofrestr a chofnodion unigol ar gyfer pob plentyn y maent yn eu lleoli a sicrhau bod mudiadau gwirfoddol a chartrefi plant preifat yn caniatáu i swyddogion Achosion Teulu Cymru gael gweld y cofnodion hyn.

**Rheoliadau Adolygu Achosion Plant (Cymru) 2007**
Mae'r Rheoliadau'n darparu ar gyfer adolygu'r trefniadau ar gyfer lleoli plant yng Nghymru sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol neu'n cael eu lletya gan fudiadau gwirfoddol neu gartrefi plant preifat.

Dan y rheoliadau, mae gofyn i awdurdodau lleol:

- Fynnu bod awdurdodau cyfrifol yn adolygu lleoliadau plant gan benodi swyddogion adolygu annibynnol i gynnal adolygiadau'n unol â'r Rheoliadau.
- Mae angen cynnal adolygiadau; o fewn pedair wythnos i'r dyddiad pan ddaw plentyn yn blentyn sy'n derbyn gofal gan gynnal adolygiadau wedyn o fewn chwe mis i'r adolygiad blaenorol fan hwyraf neu cyn hynny os oes angen, er enghraifft os bydd tor-leoliad neu os bydd y plentyn yn newid ysgol ac ati.
- nodi eu trefniadau ar gyfer sut y cynhelir adolygiadau a
cheisio barn y plentyn, y rhieni, gweithiwr cyswllt plentyn mewn cartref plant ac unrhyw un arall y mae'r awdurdod yn ei ystyried yn briodol, er enghraifft, nyrs plentyn sy'n derbyn gofal neu gydlynydd addysg
- cydlynu adolygiadau a phenodi Swyddog Adolygu Annibynnol i gynorthwyo yn y broses honno, a phennu materion penodol y mae'n rhaid i'r adolygiad eu cynnwys h.y. newid yn amgylchiadau'r plentyn, trefniadau cyswllt, gwybodaeth

ar gyfer pobl a fydd yn rhan o'r adolygiad, cofnodi gwybodaeth, trefniant ar gyfer cyswllt. Trefniadau addysg ac iechyd, os yw'r plentyn i'w leoli y tu allan i ardal yr awdurdod lleol ac ati - i gael rhestr lawn, gweler Atodlen 1, 2 a 3.

- Bod yr awdurdod lleol yn gwneud trefniadau i roi ar waith unrhyw benderfyniad a wneir yn ystod neu yn sgil adolygiad, ac i hysbysu'r swyddog adolygu annibynnol ynglŷn ag unrhyw fethiant i wneud trefniadau o'r fath, neu ynglŷn ag unrhyw newid sylweddol yn yr amgylchiadau ar ôl yr adolygiad a allai effeithio ar y trefniadau.
- Mynnu bod y Swyddog Adolygu Annibynnol yn monitro'r trefniadau ar gyfer adolygiadau ac yn paratoi cofnod ysgrifenedig o'r adolygiad o achos plentyn a materion cysylltiedig.
- Mae'r trefniadau adolygu'n berthnasol hefyd i blentyn sy'n cael ei letya am gyfres o gyfnodau seibiant byr.

**Rheoliadau Gwasanaeth Maethu (Cymru) 2003 a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

Y Rheoliadau Gwasanaeth Maethu (Cymru) 2003 ynghyd â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yw'r fframwaith ar gyfer darparu gwasanaethau maethu. Am y tro cyntaf, maent yn mynnu bod gofyn i ddarparwyr gwasanaeth maethu annibynnol gofrestru a chael eu harolygu gan Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru. Bydd gwasanaethau maethu awdurdodau lleol yn cael eu harolygu bob blwyddyn hefyd. Y Safonau a'r Rheoliadau sy'n darparu'r mecanwaith i sicrhau bod y plentyn sy'n cael ei faethu a'r gofalwr maeth yn cael gwasanaeth sy'n diwallu eu hanghenion fel unigolion ac sy'n diogelu eu lles.

Mae Cod Ymarfer ar gyfer Gofal Maeth a gyhoeddwyd yn 1999 yn dal yn berthnasol ac mae'n cynnwys cyngor ynglŷn â recriwtio ac asesu gofalwyr maeth. Mae'n pwysleisio bod angen asesu darpar ofalwyr yn drwyadl er mwyn gwarchod plant a phobl ifanc agored i niwed y mae angen gofal maeth arnynt. Mae'n cynnig cyngor penodol ynglŷn â chadw plant yn ddiogel rhag niwed ac ynglŷn â chryfhau dulliau awdurdodau lleol o recriwtio, asesu, goruchwylio a rheoli gofalwyr maeth.

**Dyma rai o'r egwyddorion allweddol:**

- Rhaid i bob darparwr gwasanaeth gael Datganiad Pwrpas sy'n rhoi datganiad clir ynglŷn â nodau ac amcanion y gwasanaeth maethu a'r cyfleusterau y mae'n eu darparu.

- Dylai'r rheini sy'n ymwneud â rheoli'r gwasanaeth maethu feddu ar y sgiliau busnes a rheoli angenrheidiol i reoli eu gwaith yn effeithlon ac yn effeithiol.
- Darparu Gofalwyr Maeth Addas - Mae'r gwasanaeth maethu'n darparu gofalwyr maeth sy'n cynnig amgylchedd diogel, iach sy'n meithrin plentyn. Ar ôl i ddarparwr gael ei gymeradwyo'n ofalwr maeth, bydd y sawl sy'n darparu'r gwasanaethu maethu a'r gofalwr maeth yn llofnodi cytundeb. Bydd y cytundeb yn cynnwys materion a dyletswyddau y mae'n rhaid i'r gofalwr maeth a'r darparwr gwasanaethau sy'n ei gymeradwyo ill dau gydymffurfio â hwy.
- Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod plant a phobl ifanc a'u teuluoedd yn cael gwasanaethau gofal maeth sy'n rhoi gwerth ar amrywiaeth ac sy'n hybu cydraddoldeb.
- Rhaid i bob plentyn neu berson ifanc a roddir mewn gofal maeth gael ei gyfatebu'n ofalus â gofalwr sy'n gallu diwallu ei h/anghenion fel y'u haseswyd;

byddai'r rhain yn cynnwys eu datblygiad corfforol, emosiynol a chymdeithasol. Rhoddir blaenoriaeth uchel i ddiwallu anghenion addysgol pob plentyn neu berson ifanc ac anogir gofalwyr maeth i'w cynorthwyo i gyrraedd eu potensial llawn.

- Goruchwylir pob gofalwr maeth cymeradwy gan weithiwr cymdeithasol a bydd cymorth gwaith cymdeithasol a chymorth proffesiynol arall digonol ar gael iddo er mwyn iddo allu darparu gofal cyson o safon ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc a leolir yn ei gartref. Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth ei fodloni ei hun fod y lleoliad yn dal i ddarparu'n briodol ar gyfer lles pob plentyn y bydd yn ei leoli.
- Efallai fod plant sy'n cael eu maethu wedi dioddef amrywiol fathau o gam-drin. Mae'n hollbwysig bod pawb sy'n ymwneud â recriwtio, asesu a goruchwylio'n ymwybodol o'r gwahanol fathau o gam-drin er mwyn iddynt sicrhau nad yw'r plant yn wynebu rhagor o risg wrth eu lleoli gyda theuluoedd.
- Os darperir gofal maeth i roi seibiant byr i'r rhieni, bydd y trefniadau'n cydnabod mai'r rhieni yw prif ofalwyr y plentyn o hyd. Bydd gan ddarparwr y gwasanaeth bolisïau a gweithdrefnau, a roddir ar waith ar lefel ymarferol i ddiwallu anghenion penodol plant sy'n cael gwyliau seibiant byr.
- Bydd polisïau a gweithdrefnau darparwr gwasanaeth ar gyfer asesu, cymeradwyo, cefnogi a hyfforddi gofalwyr maeth yn cydnabod y cyfraniad penodol y gall teulu a ffrindiau ei wneud fel gofalwyr ac yn cydnabod eu hanghenion penodol.
- Bydd darparwr y gwasanaeth maethu'n cynghori staff, pobl eraill sy'n ymwneud â'r gwasanaeth maethu, y rheini sy'n derbyn gwasanaeth neu'r rheini y gwrthodwyd gwasanaeth iddynt ynglŷn â'u hawl i gyflwyno sylwadau neu gwyno.
- Diwygir Rheoliadau Gwasanaeth Maethu (Cymru) 2003 er mwyn i ofalwyr maeth allu gwneud cais i banel adolygu annibynnol am gael adolygu eu hachos lle bydd darparwr eu gwasanaeth maethu'n bwriadu gwrthod eu cais am gael bod yn ofalwr maeth, neu'n bwriadu ddiddymu neu ddiwygio telerau eu cymeradwyaeth bresennol. Daw'r diwygiad hwn i rym ym mis Ionawr 2010.

**Atodiad 2**

## Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant
Yn cynorthwyo cynghorau yng Nghymru i gomisiynu gwasanaethau i blant agored i niwed

## Beth yw'r Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant?
Gwasanaeth yw'r Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant sy'n ceisio cynnig cynorthwyo pobl i ddod o hyd i leoliadau gofal priodol i blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Mae'n gynllun cydgysylltiedig llwyddiannus gan y llywodraeth, ac mae'r partneriaid yn cynnwys Llywodraeth y Cynulliad, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Darperir y gwasanaeth gan Uned Ddata Llywodraeth Leol ac mae wedi'i seilio ar gronfa ddata amser real, sy'n golygu bod defnyddwyr yn gallu cyfatebu plant â'r ddarpariaeth ar sail proffil eu gofynion.

## Sut mae'r Adnodd yn gweithio?

Mae'r Adnodd yn gweithio mewn dwy brif ffordd: cronfa ddata o lety addas y gall ALlau chwilio drwyddi. Mae cronfa ddata'r Adnodd yn cadw manylion lleoliadau gofal a lleoedd gweigion sydd gan amrywiaeth o ddarparwyr gwasanaethau, gan gynnwys cartrefi preswyl a gofalwyr maeth. Dylai'r darparwyr ddiweddaru'r rhain yn barhaus, gan sicrhau bod yr Adnodd yn cynnig yr wybodaeth ddiweddaraf bosibl.

Gall timau lleoli a chomisiynwyr awdurdodau lleol ddefnyddio'r gronfa ddata i ganfod lleoliadau addas ar gyfer plant dan eu gofal drwy deipio manylion gofynion y plentyn a chwilio. Bydd y gronfa ddata'n cynhyrchu rhestr fer o'r lleoliadau mwyaf addas ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd. Cedwir cofnod o'r chwiliadau a'r canlyniadau er mwyn gallu cyfeirio atynt yn y dyfodol ac mae hynny'n darparu gwybodaeth rheoli a fydd o gymorth i awdurdodau lleol a sefydliadau eraill wrth iddynt gomisiynu yn y dyfodol.

Mae'r Adnodd yn cynorthwyo awdurdodau lleol i gydweithio'n rhanbarthol drwy gynnig proses gyson i'w defnyddio gan bob awdurdod lleol yn sail ar gyfer datblygiadau arloesol. Mae'r 3 prosiect rhanbarthol yn canolbwyntio ar wella'r canlyniadau i blant a defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn y ffordd orau bosibl.

## Beth mae'r Adnodd yn ei wneud?
- Mae'n golygu bod swyddogion yn gallu chwilio am y lle gwag mwyaf priodol yn unol ag anghenion a chynllun gofal y plentyn
- Mae'n golygu bod modd cysylltu dogfennau cefndir â phob Darparwr e.e. statws o ran contract, adroddiadau arolygu
- Mae'n cynnig gwybodaeth reoli/tystiolaeth i'w defnyddio ar lefel leol a chenedlaethol
- Mae'n golygu bod modd targedu comisiynu ar gyfer gwasanaethau plant yn well yn y dyfodol ar sail ranbarthol/partneriaeth drwy ddefnyddio gwybodaeth rheoli
- Mae'n cynnig system dryloyw, gyson, genedlaethol
- Mae'n cynnig llinell sylfaen yng Nghymru ar gyfer twf
- Mae'n cynnig y cyfle i weld problemau yn y broses

## Beth nad yw'r Adnodd yn ei wneud

- Nid yw'r Adnodd yn cadw data personol o gwbl am blant. Dim ond gwybodaeth am y lleoliadau a allai ddiwallu eu hanghenion a gedwir.
- Nid yw'n sicrhau y bydd y lleoliad perffaith ar gael i blentyn
- Nid yw'n cynnig ateb cyflawn ar gyfer lleoli. Rhan fechan o'r broses lleoli yw'r Adnodd hwn - rhan o broses fwy o lawer.

## Beth arall y mae'r Adnodd yn ei gynnig?

Ar wahân i gynnal a chadw'r gronfa ddata, bydd tîm yr Adnodd yn cynnig cymorth rhagweithiol i ddarparwyr ac i awdurdodau lleol, gan gynnwys cynlluniau rhanbarthol. Mae desg gymorth arbennig ar gael gan yr Adnodd a darperir hyfforddiant ar gyfer defnyddio'r gronfa ddata. Cynhyrchir gwybodaeth rheoli'n rheolaidd ynglŷn â nifer y gofynion y chwilir amdanynt a pha fath o ofynion yw'r rheini ynghyd â nifer y lleoedd gweigion sydd ar gael er mwyn i hynny fod yn sail wrth gomisiynu ar lefel leol a chenedlaethol. Mae'r tîm yn ymwneud hefyd â sicrhau bod cytundebau cyn-lleoli'r darparwyr wedi'u diweddaru a'u bod ar gael ar-lein fel rhan o'r Adnodd.

I gael gwybod rhagor, anfonwch e-bost at nia.lewis@wlga.gov.uk neu at ccsrenquiries@dataunitwales.gov.uk a gofynnwch am yr Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant

**Atodiad 3**

**Llyfryddiaeth o'r Ddeddfwriaeth a'r Arweiniad sy'n ymwneud â Lleoli Plant sy'n Derbyn Gofal**

| Teitl y Ddogfen | URL | Dyddiad Cyhoeddi |
|---|---|---|
| Deddf Plant 1989 | http://www.opsi.gov.uk/acts/acts1989/Ukpga_19890041_en_1.htm | Tachwedd 1989 |
| The Refuges (Children's Homes and Foster Placements) Regulations 1991 | http://www.opsi.gov.uk/si/si1991/Uksi_19911507_en_1.htm | Hydref 1991 |
| The Education (Areas to which Pupils and Students Belong) Regulations 1996 (the "Belonging Regulations") | http://www.opsi.gov.uk/si/si1996/Uksi_19960615_en_1.htm | Ebrill 1996 |
| Deddf Safonau Gofal | http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2000/ukpga_20000014_en_1 | Gorffennaf 2000 |
| Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd | http://wales.gov.uk/docrepos/40382/40382313/childrenyoungpeople/403821/623995/framework-m.pdf?lang=cy | 2001 |
| Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2/2001, Cyfarwyddyd ar Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal Gan Awdurdodau Lleol | http://wales.gov.uk/docrepos/40382/4038232/4038211/Circulars/0201-w.pdf?lang=cy | Tachwedd 2001 |
| Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Maethu | http://wales.gov.uk/subsites/caresocialservicesinspect/publications/nmsfostering/nmsfosteringw.pdf?lang=cy | Chwefror 2003 |
| Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003 | http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/wsi2003/20030237e.htm | Chwefror 2003 |
| Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) (Diwygio) 2003 | http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/wsi2003/20030896w.htm | Mawrth 2003 |
| NafWC 29/2003: Guidance on accommodating Children in Need and their Families | http://wales.gov.uk/pubs/circulars/2003/welsh/NAFWC29-03F-w.pdf?lang=en | Gorffennaf 2003 |
| Canllawiau Swyddogion Adolygu Annibynnol Cymru - Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 - Rheoliadau Adolygu Achosion Plant (Diwygio) (Cymru) | http://wales.gov.uk/dhss/publications/children/childrenfirst/2006355/review-of-childrens-cases-w.pdf?lang=en | Ionawr 2004 |
| Fframwaith Strategol - Dewis a Sefydlogrwydd - | http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/090610strategicframeworkchoicestabilitycy.pdf | Mehefin 2004 |

| | | |
|---|---|---|
| Datblygu Ystod o Leoliadau o Safon i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yng Nghymru (Cynulliad Cenedlaethol, 2004) | | |
| Rheoliadau Datgymhwyso rhag Gofalu am Blant (Cymru) | http://www.uk-legislation.hmso.gov.uk/legislation/wales/wsi2004/20042695w.htm | Hydref 2004 |
| Deddf Plant 2004 | http://www.opsi.gov.uk/Acts/acts2004/ukpga_20040031_en_1 | Tachwedd 2004 |
| NAFWC 50/2004 Delegation of Decisions on Overnight Stays for Looked After Children | http://wales.gov.uk/pubs/circulars/2004/english/NAFWC50-04-e.pdf?lang=cy | Tachwedd 2004 |
| Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 23/2005: Canllawiau ar Gynorthwyo Teuluoedd sy'n Ceisio Lloches a Phlant ar eu Pennau eu Hunain sy'n Ceisio Lloches (PPHCLI) | http://wales.gov.uk/publications/circular/circulars05/1560156/?lang=cy | Awst 2005 |
| Rheoliadau Gwarcheidwaeth Arbennig (Cymru) 2005 | http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/wsi2005/20051513w.htm | Rhagfyr 2005 |
| Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell | http://wales.gov.uk/docrepos/40382/dhss/guidance/1549279?lang=en | Gorffennaf 2007 |
| Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell - Canllawiau i Blant (Saesneg yn unig) Maint Ffeil: | http://wales.gov.uk/dhss/publications/children/childrenfirst/2359075/stablelifebrightere.pdf?lang=cy | Gorffennaf 2007 |
| Rheoliadau Lleoli Plant (Cymru) 2007 | http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/wsi2007/wsi_20070310_we_1 | Gorffennaf 2007 |
| Rheoliadau Adolygu Achosion Plant (Cymru) 2007 | http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/wsi2007/wsi_20070307_we_1 | Gorffennaf 2007 |
| Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008 | http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2008/ukpga_20080023_en_1 | Rhagfyr 2008 |
| Diwygiadau i'r Rheoliadau Perthyn 1996 (Ymgynghoriad) | wales.gov.uk/docs/dcells/consultation/090116BelongingRegulations1996cy.pdf | Ionawr 2009 |
| Pe bai'n blentyn i mi - Llawlyfr i gynghorwyr ynghylch bod yn rhiant corfforaethol da | http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/childrenfirst/publications/guidelookedafterchildren/?lang=en | Awst 2008 |